Gwasanaeth Ymgynghorol Asesiad Iechyd

Canolfan Asesu Caerdydd

Cyfeiriad

Capita, 2il Llawr
40 Windsor Place
Caerdydd
CF10 3BW

Amseroedd agor

9:00yb i 5:00yh

Nodiadau o'r Ganolfan hon

Mae llefydd parcio talu ac arddangos ar y stryd ar Windsor Place, gan gynnwys nifer cyfyngedig o lefydd Bathodyn Glas. Gall y rhain fynd yn brysur.

Ewch i mewn i'r adeilad drwy wasgu'r botwm Capita, sydd ar ochr chwith y fynedfa. Mae drws awtomatig yn arwain i'r ganolfan, gyda lifft yn syth o'ch blaen. Ewch â'r lifft i'r ail lawr a rhowch wybod i'r dderbynfa eich bod wedi cyrraedd ar gyfer eich apwyntiad.

Mae mynediad heb risiau ac ar lefel y palmant. Mae'r holl ystafelloedd asesu ar yr ail lawr, ac mae toiled hygyrch ar gael. Sylwch nad yw sgwteri symudedd yn cael eu hargymell oherwydd maint y lifft. Os oes gennych unrhyw bryderon, cysylltwch â ni ymlaen llaw.

09/2025_CF10 3BW_WELSH_LP

Cyfarwyddiadau ar drên

Mae dwy orsaf drên gerllaw, ond yr agosaf yw Gorsaf Heol y Frenhines Caerdydd (CF5 4AA), dim ond 0.2 filltir (taith gerdded 3 munud) o'r ganolfan.

Gadewch yr orsaf a throi i'r dde ar hyd Station Terrace. Ewch heibio Greggs, yna troi i'r chwith i Heol y Frenhines. Troi i'r dde i Windsor Place - mae'r ganolfan ar y dde.

Mae Gorsaf Ganolog Caerdydd (CF10 1EP) hefyd yn hygyrch, wedi'i lleoli 0.8 milltir (taith gerdded 15 munud) i ffwrdd.

Am fanylion gwasanaethau trên, ewch i https://www.nationalrail.co.uk/stations.

Cyfarwyddiadau ar fws

Mae'r llwybrau bws sy'n gwasanaethu'r ganolfan yn cynnwys:

Safle Dumfries Road HX (CF10 3GA) – 500 troedfedd (150 metr) o'r lleoliad: X3, X11, X16, 10, 11, 41, 44, 44S, 45, 45B, 49, 50, 52, 56, 57, 58, 61

Safle HD 30 (CF10 3DE) – 400 troedfedd o'r lleoliad: M2

Am wybodaeth am wasanaethau bysiau ewch i www.traveline.info.

Cyfarwyddiadau ar gar

Mae Canolfan Siopa'r Capitol (CF10 2HQ) wedi'i lleoli gyferbyn â'r ganolfan asesu ac yn tua 400 troedfedd (120 metr) i ffwrdd. Mae'n cynnig parcio talu ac arddangos, gan gynnwys llefydd Bathodyn Glas.

Manylion cywir ar adeg argraffu, Medi 2025.